



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



## Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Cofnodion o'r cyfarfod Panel a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2014  
Glyder Fawr, Caernarfon

**Presennol: Cyngor Gwynedd**

Cyng. John Brynmor Hughes  
Cyng. John Pughe Roberts  
Cyng. Owain Williams  
Cyng. Dafydd Meurig (eilydd)  
Cyng. John Wyn Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. Ann Griffith  
Cyng. Victor Hughes  
Cyng. Kenneth Hughes  
Cyng. J. Arwel Roberts

**Swyddogion:**

|                    |  |
|--------------------|--|
| Gareth Jones       | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylcheddol (CG) |
| Nia Davies         | UPCC – Rheolwr                                   |
| Bob Thomas         | UPCC - Arweinydd Tîm                             |
| Heledd Fflur Jones | UPCC - Arweinydd Tîm                             |
| Eirian Harris      | UPCC - Cynorthwydd Cynllunio Cefnogol            |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Lewis Davies - CSYM  
Cyng. Gwen Griffith - CG  
Cyng. Dyfrig Jones - CG  
Cyng. Gethin Williams - CG  
Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio & Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)

- 1) **YMDDIHEURIADAU**  
Fel y nodwyd uchod.
- 2) **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**  
Datganwyd buddiant personol gan Bob Thomas (UPPC) ynglŷn ag Atodiad D - Porthaethwy.
- 3) **MATERION BRYN**  
Dim materion bryn.
- 4) **COFNODION**  
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Panel 13 Rhagfyr 2013 fel rhai cywir.
- 5) **ADOLYGIAD O BOLISI'AU STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-**  
Cyflwynwyd adroddiad gan Heledd Fflur Jones ynglŷn â'r Polisi'au isod

#### **ATODIAD A:**

#### **POLISI STRATEGOL 14 – GWARCHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**

Derbyniwyd sylwadau Llywodraeth Cymru i newid geirfa i ffurfio polisi penderfyniad cadarn ac mae'r newidiadau wedi eu gwneud. Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu derbyn hefyd, sef peidio cynnwys cyfeiriad at dir amaethyddol yn y polisi yma. Cytunwyd gyda'r pwynt yma, felly symudwyd cyfeiriad at dir amaethyddol i'w gynnwys mewn polisi cyffredinol yn berthnasol i egwyddorion rheolaeth. Nodwyd bod canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn awgrymu i beidio ail-adrodd polisi'au cynllunio cenedlaethol mewn cynllun datblygu lleol.

#### **Pwyntiau a godwyd:**

- Angen ystyried pobl a'u hanghenion o fewn ein cymunedau wrth ffurfio polisi'au. Cymunedau yn fregus yn enwedig yn Nwyfor & Meirionnydd.
- Gofynnwyd a oedd peidio ail-adrodd polisi'au cenedlaethol yn golygu ein bod yn colli ein cyfleoedd i greu polisi'au lleol.
- Economi yntau Cadwraeth - pobl gynhenid yr ardal yn hanfodol i gadwraeth yr ardal.
- Angen edrych yn fanwl ar polisi'au cenedlaethol yn ogystal â pholisi'au lleol.

#### **Ymatebion:**

- Mae cynlluniau datblygu lleol i fod yn gryno, gyda ffocws ar faterion sy'n bwysig yn lleol. Nid oes angen ail-adrodd profion statudol sydd wedi cael eu gosod allan ym Mholisi Cynllunio Cymru, ond fe ellir dangos sut fyddant yn cael eu cymhwyso'n lleol os oes angen gwneud hynny. .
- Cytunwyd fod y sylwadau yn rhai teg – yn y pen draw rhaid cael cydbwysedd rhwng sut i weithredu polisi'au. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol

**ATODIAD B:**  
**POLISI STRATEGOL 15 - AMDDIFFYN A GWELLA ASED AU**  
**DIWYLLIANNOL A THREFTADAETH**

Derbyniwyd sylwadau Llywodraeth Cymru i newid geirfa'r polisi er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol i wneud penderfyniad.

Pwyntiau a godwyd:

- Statws Safle Treftadaeth Byd Eang- sut mae hyn yn effeithio ardaloedd llechi – fydd hyn yn atal datblygiadau yn yr ardal?
- A ydym yn mynd i warchod ardaloedd llechi?
- Pwy sydd yn gyfrifol am y tomenni llechi?
- Beth ydi diffiniad 'adeiladau hanesyddol'? Pwy a beth sydd yn penderfynu fod adeilad / strwythur yn hanesyddol?

Ymatebion:

- Er gall rhai ardaloedd llechi gael statws treftadaeth byd eang yn y dyfodol, nid yw hynny yn golygu na fydd datblygiad yn gallu digwydd yn yr ardaloedd. Mae'r ardaloedd fel ag y maent oherwydd datblygiadau ac mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn awyddus i hyrwyddo datblygiad priodol yn yr ardaloedd er mwyn cynnal y cymunedau
- I fyny i nawr nid yw'r ardaloedd wedi ei cael eu diffinio. Fe fydd Cynllun Rheolaeth yn cael ei baratoi a fydd yn adnabod y ffiniau, nodweddion yr ardaloedd a chamau i'w cymryd i warchod y rhinweddau gorau. Adran Datblygu Economi'r Cyngor sy'n arwain o fewn y Cyngor.
- Mae gwarchodaeth fel Adeiladau Rhestredig yn un statudol – mae adeiladau wedi eu graddio yn ôl nodweddion hanesyddol. Gall adeiladau eraill yn yr ardal fod yn rhai 'hanesyddol'. Cytunwyd y bydd angen i'r Cynllun egluro'r term 'hanesyddol' os fydd polisi'n cyfeirio at adeiladau na fydd yn rhai rhestredig, h.y. adeiladau hanesyddol lleol.

**Rhan 3:**

Derbyn y polisi yn ddarostyngedig i'r sylwadau am adeiladau hanesyddol lleol

**ATODIAD C:**  
**POLISI STRATEGOL 20 – ISADEILEDD CYMUNEDOL**

Mae sylwadau Llywodraeth Cymru yn amlygu fod elfen o ddyblygu rhwng y Polisi yma a Pholisi PS5. Cytuno i ddiwygio PS20. Caiff gwybodaeth sydd yn cael ei ddileu ei gynnwys yn PS5. Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu fod angen polisi manwl i ddelio gyda math o wasanaethau a darpariaeth hirdymor.

**ATODIAD CH:**  
**POLISI STRATEGOL 21 – TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

Ni chafwyd llawer o sylwadau ond tra bod yna gefnogaeth i dechnoleg gwybodaeth dylid defnyddio strwythurau presennol lle yn bosib. Awgrymwyd y dylid cynnwys cyfeiriad tuag at osod gwifrau dan ddaear yn y polisi.

Pwyntiau a godwyd

- Cefnogwyd agwedd o'r polisi o osod gwifrau dan ddaear. Holwyd os oes angen caniatâd cynllunio i osod gwifrau o dan ddaear?
- Nodwyd fod angen polisi i reoli peilonau
- Mwy o gyd-weithio gyda'r Parc
- Holwyd os oedd yna fwriad i greu polisi ar gyfer 'ffracio'.

Ymatebion:

- Mae gan gwmnïau hawliau statudol i wneud gwaith ond mae'n rhaid iddynt gyfathrebu gydag Awdurdodau Lleol.
- Cytunwyd y bydd angen polisi i ddelio gydag effeithiau peilonau ar y dirwedd, mwynderau, a materion eraill
- Mae'r bwriad i gynnwys y Parc
- Mae polisi am Ynni Adnewyddol yn bodoli sydd yn ymdrin â gwahanol fathau o ynni carbon isel neu sero. Fe ellir cymhwyso'r polisi i ddelio efo datblygiad 'ffracio' pe fyddai hynny'n codi.

Derbyniodd y Panel y rhestr o bolisiau manwl yr argymhellir i'w cynnwys o fewn y Cynllun.

#### **ATODIAD D:**

#### **POLISI STRATEGOL 22 – TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGIRCHEDD**

Derbyniwyd sylwadau cyffredinol - Network Rail yn bryderus dros lwybrau yn croesi rheilffyrdd. Cytunwyd gyda sylwad ynglŷn â diogelwch a mynediad anabledd - angen edrych ar system integredig.

Pwyntiau a godwyd:

- Syniad o drafnidiaeth integredig yn wych mewn egwyddor ond a oes gennym unrhyw ddylanwad ar eu lleoliad. Gofynnwyd pwy sydd yn penderfynu ar leoliadau'r llwybrau beicio a cherdded. Hefyd, nodwyd fod yna brinder o lwybrau yn gyffredinol.
- Mynegwyd fod yna bryderon ynglŷn â llwybrau beicio, e.e. arwyneb a hefyd cerddwyr yn eu defnyddio, felly maent yn gallu bod yn beryglus, a methu eu defnyddio i'r pwrpas.
- Posibilrwydd i osod arwyddion 'dim beicwyr' ac iddynt ddefnyddio'r llwybrau sydd wedi cael eu datblygu iddynt a dim y lonydd.
- Codwyd pwynt fod yna ddau deip o feicwyr, sef proffesiynol a theuluol. Llwybr Machynlleth i Gorris ddim yn cael ei defnyddio oherwydd gormodaeth o giatiau i'w hagor.
- Ers i lein Amlwch gau yn y chwe degau, ni ddylid colli'r lein yma ond ei gwarchod.
- Holwyd am y posibilrwydd o ail-agor rheilffordd Bangor i Gaernarfon, a'i warchod ar gyfer ei ddefnyddio fel llwybr beicio? Hefyd, os caiff y lein ei ail-agor angen greu polisi i'w warchod.
- Codwyd pwynt ar 'Parcio a Theithio', a ellir bod yn glir mai Bangor ydi'r lleoliad arfaethedig?

Ymatebion:

- Mae'r llwybrau yn cael eu penderfynu drwy rhai hanesyddol ac ar lefel leol.
- Ni all y system cynllunio orfodi beicwyr i ddefnyddio'r llwybrau pwrpasol ac i beidio defnyddio'r lonydd.
- Ynglŷn â rheilffordd Bangor i Gaernarfon fe fydd yna drafodaethau yn digwydd gyda'r Adran Trafnidiaeth.
- O ran lein Amlwch, yn bresennol mae yna bolisi mewn lle yn gwarchod y lein. Fodd bynnag, mae angen cysidro'r costau i'w drawsnewid a'r gost o'i chynnal. Cafwyd astudiaeth dichonolrwydd ei wneud ar y lein ac fe ddangosodd y buasai yn gostus i'w thrawsnewid a'i chynnal.

## **MATERION ERAILL A GODWYD**

Nododd Cyng. J Arwel Roberts fod Gweinidog Tai - Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei fod yn 'falch iawn' o weld cyd-weithio ar y CDLI ar y Cyd mewn anerchiad yn ystod cyfarfod am y Mesur Cynllunio arfaethedig. Cyfeiriodd hefyd at Adrannau Cynllunio Gwynedd a Môn yn ymuno.

Diolchwyd i Cyng. Ann Griffith am gadeirio yng nghyfarfod y cyfarfod Panel ym mis Rhagfyr 2013.

Holodd Cyng. Owain Williams ynglŷn â niferoedd tai'r Cynllun. Esboniwyd, fod y Cynllun yn hyrwyddo 7665 ac fe gaiff ei rannu rhwng Gwynedd (oddeutu 4000) a'r gweddill ym Môn. O fewn y Siroedd, mae'r Cynllun wedi categorioedd i'w anedlleoedd i adlewyrchu eu rôl yn yr ardal. Bydd canran o'r cyfanswm o'r unedau tai yn cael eu cyfeirio i'r anedlleoedd yn unol â'u rôl.

Mae'r safleoedd sydd ar y Gofrestr Safleoedd Posib wedi dechrau cael ei hidlo, gyda'r gwaith yn cael ei ddiweddarau trwy'r amser. Nodwyd bod tai a gafodd eu hadeiladu ers Ebrill 2011 yn cyfrannu i'r galw, yn ogystal â'r unedau tai sydd gan ganiatâf gynllunio ar hyn o bryd ond heb eu darparu.

Mewn ymateb i ymholiad am gais cynllunio cwmni Land & Lakes cadarnhawyd na fyddai'r unedau tai parhaol ar ran o safle'r cais cynllunio yn cael eu cynnwys yn ffigwr y Cynllun. Esboniwyd hefyd, fod cais cynllunio 'Land & Lakes' yn achos unigryw, gan y bydd y lletyau yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd yn y lle cyntaf.

Holwyd am ddiweddiariad am y Clystyrau. Nodwyd fod yr Uned yn dal i weithio ar hyn ac y bydd adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Panel yn fuan.